# Cyngor Sir Benfro

# Adroddiad ar Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant

Mehefin 2025

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
© Hawlfraint y Goron 2025
WG52460 ISBN Digidol 978-1-83715-863-8

## Cyflwyniad

Rhwng 17 ac 21 Mawrth 2025, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Phrif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaethol i achosion o gam-drin ac esgeuluso plant yn Sir Benfro.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau am effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol yn Sir Benfro.

**Cwmpas yr arolygiad**

Fel rhan o'r Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA), adolygwyd y canlynol:

- yr ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeulustod pan fyddant yn cael eu nodi
- ansawdd ac effaith gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau
- gwaith i amddiffyn plant 11 oed ac iau sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- sut y caiff y gwaith hwn ei arwain a'i reoli
- effeithiolrwydd trefniadau partneriaid diogelu amlasiantaethol mewn perthynas â'r gwaith hwn

Rydym wedi ceisio defnyddio iaith syml i ddisgrifio canfyddiadau'r arolygiad ar y cyd. Rydym yn cyfeirio at nifer o dermau yn yr adroddiad sydd wedi'u diffinio isod:

| Term neu Ymadrodd | Diffiniad |
|---|---|
| AWARE | Mae'n rhaid i Lais y Plentyn gael ei gofnodi bob tro y bydd un o swyddogion yr heddlu yn ymchwilio i bryder yn ymwneud ag amddiffyn plant, a chaiff staff eu cyfarwyddo i ddefnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol i ystyried Ymddangosiad, Geiriau, Gweithgarwch ac Ymddygiadau, Cydberthnasau a Dynameg, ac Amgylchedd (AWARE) y plentyn. |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CAGCh | Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth |
| CAT | Tîm Asesu Gofal Plant |

| | |
|---|---|
| CID | Adran Ymchwiliadau Troseddol |
| CLA | Plant sy'n Derbyn Gofal |
| CPR | Y Gofrestr Amddiffyn Plant |
| CRU | Uned Atgyfeirio Ganolog yr Heddlu ar gyfer pryderon yn ymwneud â diogelu |
| CWMPAS | Cydweithio a Chynnal Partneriaeth wrth Ddiogelu Oedolion |
| CYSUR | Diogelu Plant a Phobl Ifanc, Uno'r Rhanbarth |
| DBS | Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio drwy wirio cofnod troseddol rhywun sy'n gwneud cais am rôl. |
| Person Diogelu Dynodedig | Arweinydd diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion. |
| Dyletswydd i Roi Gwybod | Mae'n cyfeirio at Ddyletswydd i Roi Gwybod gweithiwr proffesiynol mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â diogelu. Gair arall am hyn yw atgyfeirio. |
| EHE | Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| ELSA | Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol – rhaglen ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol a gyflwynir gan staff hyfforddedig mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion. |
| EWS/EWO | Gwasanaeth Lles Addysg/Swyddog Lles Addysg |
| FEO | Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd |
| Genedigaeth rydd | Genedigaeth rydd, neu enedigaeth heb gymorth, yw pan fydd menywod yn rhoi genedigaeth heb fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol, a hynny o fwriad. |
| ICPC | Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol – Y cyfarfod amddiffyn plant cyntaf sy'n cynnwys aelodau'r teulu, y plentyn (lle y bo'n briodol), a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu er mwyn gwneud penderfyniadau am ddiogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn y dyfodol. |
| ICMS | System Rheoli Gwybodaeth ac Achosion |
| INTACT | Rhaglen partneriaeth amlasiantaethol i fynd i'r afael â Thrais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. |

| | |
|---|---|
| LOG | Grŵp Cynghori Lleol |
| MASH | Hyb Diogelu Amlasiantaethol – Pwynt cyswllt unigol ar gyfer pob pryder diogelu newydd. |
| MWWSB | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| NICHE | System rheoli cofnodion yr heddlu a ddefnyddir gan nifer o heddluoedd yn y DU. Mae'n rheoli gwybodaeth yn ymwneud ag endidau plismona craidd pobl, lleoliadau, cerbydau, sefydliadau (busnesau neu grwpiau eraill), digwyddiadau ac eiddo/tystiolaeth. |
| Ymgyrch Encompass | Proses a ddefnyddir gan yr heddlu i ddarparu gwybodaeth i ysgolion am achosion o gam-drin domestig sy'n effeithio ar eu disgyblion. Bydd yr heddlu yn darparu gwybodaeth am achos o gam-drin domestig sy'n effeithio ar blentyn i aelod hyfforddedig o staff yr ysgol y diwrnod ar ôl i swyddogion gael eu galw i achos o gam-drin domestig. Gellir wedyn rhoi cymorth priodol, yn dibynnu ar anghenion a dymuniadau'r plentyn. |
| CGCh Rhan 6 | Cynllun gofal a chymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal |
| PIT | Fforwm trothwy amlasiantaeth sy'n cael ei dreialu, sef Brysbennu Integredig mewn Partneriaeth |
| HAC | Dogfen rhannu gwybodaeth sy'n cofnodi pryderon diogelu am oedolyn neu blentyn. Caiff HACau eu rhannu ag asiantaethau partner i lywio ymateb amlasiantaethol. |
| UCD | Math o ysgol a sefydlir ac a gynhelir gan awdurdod lleol i ddarparu addysg i blant a phobl ifanc nad ydynt, oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall, o bosibl yn cael addysg o'r fath (adran 19 o Ddeddf Addysg 1996). |
| PRUDiC | Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod – mae'n nodi'r safon ofynnol ar gyfer yr ymateb amlasiantaethol i farwolaeth annisgwyl plentyn neu berson ifanc. Nod PRUDiC yw sicrhau bod yr ymateb hwn yn ddiogel, yn gyson ac yn ystyried y rhai dan sylw, a bod cysondeb o ran y dull gweithredu ledled Cymru. |
| RSB | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |
| Adran 47 (a47) | O dan a47 o Ddeddf Plant 1989, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ymchwilio os ymddengys fod plentyn yn ei ardal yn dioddef niwed sylweddol neu'n wynebu risg o hynny. |

| | |
|---|---|
| CAMPUS | Cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol |
| Arwyddion Diogelwch | Dull o ymdrin ag ymarfer amddiffyn plant sy'n seiliedig ar gydberthnasau ac a drefnir ar sail diogelwch. Cafodd ei greu drwy ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio i weithwyr proffesiynol a theuluoedd wrth ddatblygu diogelwch ystyrlon i blant sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg. |
| TAPPAS | Fforwm cyfarfod i asiantaethau ffurfio 'Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol' |
| THRIVE | Model bygythiad, niwed, risg, ymchwilio, agored i niwed ac ymgysylltu a ddefnyddir i asesu'r ymateb cychwynnol priodol gan yr heddlu pan geir cais am wasanaeth. Mae'n fodd i lunio barn am y risg berthynol dan sylw ac yn gosod anghenion unigol y dioddefwr wrth wraidd y penderfyniad hwnnw. |
| VAWDASV | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| WSP/Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi manylion y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n hanfodol i ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. |

## **Crynodeb**


Mae'r cyd-destun diogelu yn Sir Benfro yn un lle mae nifer cynyddol o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt ac y mae angen eu hamddiffyn. Mae nifer y plant sydd wedi'u henwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi dyblu yn y ddwy flynedd ddiwethaf, o 58 o blant ym mis Mawrth 2023 i 118 o blant ym mis Chwefror 2025. Mae cymhlethdod yr atgyfeiriadau yn cynyddu hefyd, ac mae angen gofal yr awdurdod lleol ar fwy o blant. Ym mis Mawrth 2023, roedd 242 o blant yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, ac mae'r ffigur hwn wedi cynyddu i 213 ym mis Chwefror 2025.

Mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu ac amddiffyn pobl, ac mae pob partner wedi gweld cynnydd yng nghymhlethdod yr achosion a'r galw am gymorth. At hynny, mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo pwysau cyllidebol sylweddol ar bob asiantaeth. Mae'n bwysicach fyth bod partneriaid yn cydweithio i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ac effeithlon i faterion diogelu.

Mae pob un o'r pedwar awdurdod lleol sy'n rhan o Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal Grwpiau Gweithredol Lleol. Mae'r grwpiau hyn yn monitro

ac yn dadansoddi ymarfer diogelu ar lefel leol, yn hytrach na rhanbarthol. Gall hyn hwyluso cydgysylltu a chydweithio gwell ar draws y bartneriaeth. Nodwn fod meysydd ffocws allweddol y Grwpiau Gweithredol Lleol yn cynnwys gwella ansawdd adroddiadau o dan y Ddyletswydd i Roi Gwybod, cydweithio amlasiantaethol, a mynd i'r afael â heriau o ran capasiti er mwyn gwella safonau.

Ar y cyfan, mae'r asiantaethau partner yn cydweithio'n dda â'i gilydd i feithrin diwylliant cadarnhaol mewn perthynas â diogelu plant. Mae'n gadarnhaol nodi bod lleoliadau addysg a'r heddlu wedi mynd ar drywydd y gwelliannau y nodwyd bod eu hangen yn ystod arolygiadau blaenorol.

Mae angen gwella'r cyfathrebu rhwng asiantaethau mewn nifer o feysydd ymarfer, er enghraifft rhwng nyrsys ysgolion a gweithwyr cymdeithasol. Mae diffyg cofnodion diogelu, gan gynnwys Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chymorth (CAGCh) a chofnodion grwpiau craidd, mewn cofnodion iechyd yn arwydd o gyfathrebu anghydlynol. Gall fod oedi hefyd cyn cwblhau asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n rhan o'r broses amddiffyn plant. Er bod y bwrdd iechyd wedi nodi gwelliannau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae oedi parhaus yn golygu y gall fod effaith andwyol ar gamau amddiffyn i fynd i'r afael â risg.

Mae methodoleg Arwyddion Diogelu yn ddull sy'n seiliedig ar gydberthnasau a diogelwch o ymdrin ag ymarfer amddiffyn plant. Defnyddir y fethodoleg hon yn Sir Benfro ac ar y cyfan, mae partneriaid yn ei deall. Nid yw rhai cofnodion a chynlluniau yn canolbwyntio'n ddigonol ar gryfderau'r teulu a'r 'hyn sy'n bwysig' iddo. Dylai'r awdurdod lleol a'r holl bartneriaid roi mwy o bwyslais ar lais plant unigol, effaith niwed, cryfderau, diogelwch, ffactorau amddiffynnol, a chanlyniadau. Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn bwriadu recriwtio dau weithiwr cymdeithasol i fynd i'r afael â'r gwelliannau hyn.

Mae effaith pwysau'r gweithlu ar forâl a llesiant y staff yn dal i fod yn risg sylweddol yn y gwasanaethau plant a theuluoedd, ac mae hyn yn effeithio ar rai timau yn fwy nag eraill. Dywed staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn gyson nad yw'r gweithlu yn gallu ateb y galw, nad ydynt y cael digon o gymorth i gefnogi eu llesiant, ac nad ydynt bob amser yn gallu cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dylai'r arweinwyr a'r aelodau fynd ati ar frys i weithio gyda staff i adolygu digonolrwydd y gweithlu a gwella llesiant a gwydnwch y gweithlu.

Mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n dda gyda staff yr awdurdod lleol yn y Tîm Asesu Gofal Plant ac yn gwerthfawrogi eu cymorth. Dywedodd bron pob un o staff y Bwrdd Iechyd a'r staff addysg eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda pan fydd ganddynt bryderon am ddiogelwch neu lesiant plentyn a phan fydd angen iddynt wneud atgyfeiriad. Rhaid atgyfnerthu'r nodweddion cadarnhaol hyn ymhellach drwy wella amseroldeb ymatebion y Tîm Asesu Gofal Plant a darparu cadarnhad

ysgrifenedig o ganlyniadau atgyfeiriadau i'r unigolyn neu'r asiantaeth sy'n gwneud yr atgyfeiriad.

Mae'r rhan fwyaf o ymholiadau amddiffyn plant yn drylwyr ac yn canolbwyntio ar anghenion diogelu'r plentyn. Gellid gwella ymyriadau ymhellach drwy roi mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth ar gam cynharach o'r broses. Caiff bron pob trafodaeth strategaeth ei chynnal rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu, ac ni chaiff cyfarfodydd strategaeth bob amser eu cynnull cyn Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Mae hyn yn golygu nad yw ymarferwyr bob amser yn cael eu cynnwys mewn modd amserol, er mwyn rhannu gwybodaeth a chytuno ar gamau dilynol. Dylai'r arweinwyr sicrhau bod yr ymarfer yn gyson â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r broses cynadleddau yn gryfder sylweddol yn Sir Benfro. Mae presenoldeb yn dda ac mae partneriaid yn gwneud cyfraniad pwysig at drafodaethau am risg ac angen. Mae cadeiryddion cynadleddau yn goruchwylio ac yn dadansoddi penderfyniadau yn dda, ac mae hyn yn helpu i ddatblygu cynlluniau amlinellol clir i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant. Er gwaethaf y cryfder hwn, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol yn amserol ac yn cael ei chynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth ddiwethaf/diwethaf.

Mae arweinwyr ar draws y gyfarwyddiaeth addysg yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddiwylliant diogelu yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae seicolegwyr addysgol, y gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau ieuenctid, a chynghorwyr gwella yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth er mwyn darparu cymorth effeithiol i blant a phobl ifanc. Mae'r holl asiantaethau yn cael budd o'r cymorth o ansawdd uchel y maent yn ei gael gan y timau hyn, sy'n helpu i wella canlyniadau i ddisgyblion agored i niwed.

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) yn amrywio o ddulliau diogelu rhagweithiol i gyfleoedd a gollir i ddarparu her broffesiynol a diffyg trefniadau goruchwylio. Ar y cyfan, ceir lefelau cydymffurfiaeth gwael â hyfforddiant ar ddiogelu ac mae angen i'r rheolwyr ganolbwyntio o'r newydd ar wella presenoldeb yn yr hyfforddiant hwn.

Gall prosesau sicrhau ansawdd fod yn anghyson, ac mae capasiti yn ffactor penodol yn hyn o beth, yn enwedig ar gyfer y gwasanaethau plant a BIPHDd. Gan nad oes prosesau sicrhau ansawdd clir yn cael eu rhoi ar waith, ni all yr arweinwyr gadw golwg digonol ar gydymffurfiaeth neu ansawdd ymarfer.

Ar y cyfan, caiff plant yn Sir Benfro eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, a mathau eraill o niwed drwy ymatebion amlasiantaethol digonol. Maent yn cael eu cynnwys yn rhesymol yn eu gofal a'u cymorth ac mae'r rhan fwyaf

o bobl yn cyflawni canlyniadau digonol. Fodd bynnag, gall trefniadau diogelu fod yn anghyson, gan amrywio o gyfraniad rhagorol gan asiantaethau mewn cynadleddau achos amddiffyn plant i brosesau sicrhau ansawdd a chyfathrebu annigonol mewn agweddau eraill ar y bartneriaeth rhwng asiantaethau. Mae cymorth corfforaethol gwell gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau plant, yn cynnig cyfle i fynd ar drywydd y gwelliannau sydd eu hangen.

## Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

## Llesiant

### Trefniadau Partneriaeth – Cryfderau

Ar y cyfan, mae gan bartneriaid ddealltwriaeth a rennir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae ffocws ar drefniadau gweithio effeithiol rhwng asiantaethau.

Mae enghreifftiau o gydweithio rhagorol rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol wrth ddiogelu plant. Mae hyn yn arwain at benderfyniadau prydlon ac effeithiol yn ystod ymchwiliadau.

Mae plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u henwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael ymateb cydweithredol gan weithwyr proffesiynol. Ar y cyfan, ceir presenoldeb a chyfraniadau amlasiantaethol da mewn grwpiau craidd, cynadleddau amddiffyn plant, ac Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae hyn yn sicrhau bod camau gweithredu a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth (CAGCh) neu'r CAGCh Rhan 6 yn cael eu goruchwylio, sy'n hanfodol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr cyffredinol a gwasanaethau mamolaeth bob amser yn cael eu gwahodd i gynadleddau, a dylid mynd i'r afael â hyn.

Mae'r arweinwyr wedi rhoi proses ymateb cyflym ar waith ar gyfer dysgu yn dilyn digwyddiadau difrifol lle mae plentyn wedi cael ei enwi.  Mae hyn yn digwydd cyn yr Adolygiad Ymarfer Plant ac mae'n rhoi cyfleoedd i'r awdurdod ddatblygu argymhellion a gwella ymarfer mewn modd amserol.

Mae'r arweinwyr yn deall manteision hyfforddiant amlasiantaethol. Mae'r heddlu a'r awdurdod lleol yn bwriadu darparu hyfforddiant ar ddiogelu ar y cyd i 32 o weithwyr cymdeithasol a swyddogion yr heddlu; mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant amlasiantaethol ar bynciau arbenigol fel Salwch Ffug a Gwneud ac mae hyfforddiant amlasiantaethol ar PRUDiC yn cynnig cyfle i gryfhau trefniadau diogelu.

Mae amrywiaeth eang o hyfforddiant ar ddiogelu wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol ar gael i staff ysgolion a staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yn ogystal ag aelodau'r pwyllgor rheoli a llywodraethwyr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant cyffredinol ar

amddiffyn plant a hyfforddiant penodol, gan gynnwys ar ddyletswyddau Prevent, recriwtio diogelach, a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae hyfforddiant pwrpasol ar gael ar gais ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Caiff hyfforddiant ei werthuso yn dilyn adborth, er mwyn cefnogi gwelliannau.

Mae cadeiryddion cynadleddau yn hwyluso cynadleddau achos amddiffyn plant cynhwysol. Maent yn cefnogi safbwyntiau'r teulu a rhanddeiliaid i'w rhannu; ac mae ymarferwyr yn darparu her adeiladol pan fydd anghydfod proffesiynol. Caiff pryderon gweithwyr proffesiynol eu huwchgyfeirio drwy sianeli priodol pan fo angen.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Mae oedi cyson cyn cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol am nad yw adroddiadau gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi y dylai cadeirydd cynhadledd fod yn fodlon bod gwybodaeth ddigonol yn debygol o fod ar gael, fel bod modd i'r gynhadledd wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y risg barhaus o niwed i'r plentyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd y cadeirydd am ohirio'r gynhadledd, ond wrth wneud hynny, rhaid iddo fod y n fodlon bod y plentyn yn cael ei amddiffyn, ac y caiff y gynhadledd ei haildrefnu cyn gynted â phosibl. Dylai'r holl bartneriaid wneud mwy o ymdrech i gwblhau adroddiadau mewn modd amserol a dylai'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol gael ei chynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth ddiwethaf/diwethaf. Dylai'r arweinwyr sicrhau mai dim ond yn yr amgylchiadau a amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru y bydd hyn yn digwydd.

**Asiantaeth Unigol – Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Mae strwythurau llywodraethu a pholisïau diogelu cadarn ar waith. Mae arweinyddiaeth gref wrth reoli prosesau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, caiff ansawdd pob asesiad iechyd ei sicrhau gan y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal ac ar y cyfan, caiff pob asesiad ei gwblhau o fewn yr amserlenni statudol.

Caiff gwersi a ddysgwyd o adolygiadau lleol a chenedlaethol eu rhannu'n eang ar draws y Bwrdd Iechyd a meddygfeydd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu'n gyflym i nodi gwersi i'w dysgu ar unwaith wrth i ddigwyddiadau ddigwydd. Mae gwasanaethau llesiant a chymorth da ar waith i staff sy'n ymwneud â digwyddiadau diogelu trawmatig.

Mae modiwl diogelu newydd yn system gofnodi Datix Cymru wedi gwella'r broses o graffu ar ddigwyddiadau diogelu a'u goruchwylio. Bu'r arweinydd diogelu a dreialwyd yn un o Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar yn allweddol i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar ddiogelwch a phrosesau sicrhau ansawdd a dylid ystyried mabwysiadu'r model hwn yn y dyfodol.

Mae amseroedd aros Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ar gyfer asesu ac ymyrryd wedi lleihau'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu hasesu o fewn 28 diwrnod i gael eu hatgyfeirio ac mae'r rhan fwyaf o ymyriadau yn dechrau o fewn 28 diwrnod i'r asesiad.

Mae tystiolaeth o ddogfennaeth gref mewn rhai meysydd, sy'n dangos bod y gwasanaeth iechyd yn cymryd rhan yn y broses amddiffyn plant. Er enghraifft, mae cofnodion rhai meddygon teulu yn dangos ymarfer diogelu da gyda chofnodion clir o achosion o gam-drin domestig, cyfarfodydd diogelu, ac adroddiadau ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant.

Anogir chwilfrydedd proffesiynol ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i uwchgyfeirio pryderon yn ymwneud â diogelu.

**Addysg**

Mae'r Prif Weithredwr a'r aelodau etholedig wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer Sir Benfro, sef *'cydweithio i wella bywydau'*. Gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Addysg, maent wedi meithrin diwylliant diogelu cryf, a phrosesau a systemau cadarn ar lefel gorfforaethol, ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

Fel swyddog diogelu corfforaethol arweiniol yr awdurdod lleol, mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn cyfleu ac yn sicrhau gweledigaeth glir ac wedi'i hystyried yn dda ar gyfer diogelu. Mae hyn yn seiliedig ar ddealltwriaeth a rennir bod cyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol i blant a phobl ifanc Sir Benfro. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n effeithiol ar draws bob un o feysydd gwasanaeth yr awdurdod lleol.

Mae diogelu yn flaenoriaeth uchel i bob arweinydd yn y gwasanaeth addysg. Mae polisi diogelu corfforaethol priodol ar waith, sy'n cwmpasu pob aelod o staff a gyflogir gan y cyngor. Caiff hyn ei atgyfnerthu ymhellach gan rôl hyrwyddwyr diogelu yn y cyngor, sy'n cynnwys aelodau etholedig ac uwch-arweinwyr.

Mae'r gwasanaeth addysg yn darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant gwerth chweil ar ddiogelu. Mae aelodau etholedig, llywodraethwyr ysgol ac aelodau'r pwyllgor rheoli ysgolion, cyflogeion y cyngor, staff ysgolion a staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cwblhau'r hyfforddiant corfforaethol ar ddiogelu ar ôl cael eu penodi. Er gwaethaf

pwysau ariannol, mae'r awdurdod lleol yn parhau i adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd ar gyfer aelodau etholedig, staff a gyflogir yn ganolog, a'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion ac yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, gan gynnwys llywodraethwyr ysgol ac aelodau'r pwyllgor rheoli.

Mae gan lywodraethwyr ac aelodau'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu. Maent wedi datblygu eu rôl fel arweinwyr diogelu strategol yn eu hysgolion ac yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i sicrhau polisïau ac ymarfer effeithiol mewn perthynas â diogelu. Mae'r arferion recriwtio diogelach yn gadarn.  Mae cymorth effeithiol iawn ar gael gan yr awdurdod lleol ar gyfer rheoli honiadau yn erbyn staff.

Mae gan yr arweinwyr System Rheoli Gwybodaeth ac Achosion (ICMS) sy'n darparu amrywiaeth eang o wybodaeth bwrpasol a chyfredol am ddiogelu. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn nodi'n gywir pan fydd angen cymorth ychwanegol ar ysgol neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion, y cymorth sydd ei angen arnynt, a phwy fydd yn cydlynu ac yn arwain yr ymateb. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwella eu hymarfer yn llwyddiannus. Hysbysir y Rheolwr Diogelu Mewn Addysg bob tro y bydd hyn yn digwydd.

Mae systemau effeithiol iawn ar waith i archwilio arferion diogelu pob ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion bob blwyddyn. Mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn adolygu archwiliad pob ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn fanwl i ystyried cryfderau a meysydd i'w gwella. Rhoddir adborth pwrpasol i bob ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion pan fo angen. Mae hyn yn un o gryfderau sylweddol yr awdurdod lleol.

Mae'r cylch blynyddol o ymweliadau ag ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn sicrhau bod adolygiadau ar y safle manwl o arferion diogelu yn cael eu cynnal. Cyn pob ymweliad, mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn casglu amrywiaeth eang o ddata am yr ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion gan bartneriaid gwahanol. Mae hyn yn sicrhau bod y rheolwr wedi'i baratoi'n dda, gan arwain at benderfyniadau mwy effeithiol a deallus am ddiogelu sy'n gwella diogelwch a llesiant disgyblion. Mae ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael adroddiad sy'n nodi cryfderau ac argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn mynd ar drywydd unrhyw argymhellion er mwyn gwerthuso cynnydd.

**Heddlu Dyfed-Powys**

Mae gan yr heddlu brosesau llywodraethu cadarn, sy'n darparu gwybodaeth feintiol ac ansoddol i'r arweinwyr am berfformiad mewn perthynas ag amddiffyn plant.

Adolygodd yr heddlu ei drefniadau ar gyfer ymchwiliadau cam-drin plant yn ddiweddar ac mae wedi cyflwyno tîm ymchwilio ar y cyd sy'n cynnwys dau dditectif

ringyll a phedwar ditectif gwnstabl. Mae'r swyddogion hyn yn gweithio'r un oriau craidd â staff y gwasanaethau cymdeithasol ac maent wedi cael hyfforddiant arbenigol.

Mae'r swyddogion a'r staff yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig iawn i'w gwaith ac maent yn deall yr angen i gynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae cydberthynas waith gefnogol rhwng yr Adran Ymchwiliadau Troseddol gyffredinol a swyddogion y tîm ymchwilio ar y cyd arbenigol.

Mae'r heddlu yn goruchwylio ei adnoddau dynol yn dda. Mae'n bwriadu meithrin gwydnwch yn ei wasanaethau sy'n diogelu pobl agored i niwed. Mae'n trefnu cyrsiau arbenigol ac yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad i benderfynu pa bynciau y dylid eu cynnwys, ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Er enghraifft, eleni bydd pob aelod o staff rheng flaen yn cael hyfforddiant ar esgeulustod.

Mae'r heddlu yn darparu cymorth llesiant a chymorth proffesiynol i'w weithlu. Gall goruchwylwyr atgyfeirio staff a swyddogion neu gall unigolion gael y gwasanaethau hyn yn uniongyrchol.

Mae cyfres o gyfarfodydd rheoli risg yr heddlu yn helpu i gydlynu gweithgarwch yr heddlu ac asiantaethau partner i darfu ar droseddwyr ac amddiffyn plant a'u teuluoedd. Mae staff canolfan gyfathrebu yr heddlu yn defnyddio asesiad risg THRIVE i benderfynu pryd i ymateb i ddigwyddiadau diogelu plant a'r math o ymateb sydd ei angen. Mae hyn yn effeithiol ac mae goruchwylwyr yn adolygu digwyddiadau gored er mwyn sicrhau bod ymateb yr heddlu yn dal i fod yn briodol.

**Gwasanaethau Plant**

Mae'r gwasanaethau plant yn wynebu achosion mwy cymhleth a mwy o alw, a hynny yn erbyn cefndir o bwysau ariannol sylweddol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n gadarnhaol nodi'r newid diweddar a ffocws cynyddol yr arweinwyr corfforaethol a'r aelodau ar wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys mwy o gyllid ar gyfer y gwasanaethau plant a bydd yn rhoi cyfle i fynd i'r afael ag anghenion acíwt, gan roi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar.

Mae'r staff gweithredol yn ymroddedig ac yn ymrwymedig iawn i hybu diogelwch a llesiant plant. Mae'r staff yn rheoli achosion mwy cymhleth a mwy o alw, ond mae hyn yn cael effaith sylweddol ar eu llesiant. Mae'r uwch-reolwyr yn brofiadol a dywed y rhan fwyaf o'r staff eu bod wrth law ac yn gefnogol. Mae'r arweinwyr wedi canolbwyntio ar gynyddu capasiti a lleihau'r galw er mwyn cefnogi llesiant y staff, a hynny'n ddealladwy.

Mae ymagwedd cadeiryddion cynadleddau a Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gadarnhaol iawn, sy'n rhoi sicrwydd am ansawdd ymarfer. Caiff cynadleddau eu

cadeirio'n effeithiol i sicrhau bod rhieni yn deall y broses. Mae'r cadeiryddion yn esbonio pob cam yn glir ac yn rhoi cyfleoedd i'r rhieni ofyn cwestiynau, i'w helpu i ddeall ac i ymgysylltu. Mae cadeiryddion cynadleddau a Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dadansoddi ac yn goruchwylio cynlluniau gofal i safon uchel.

Caiff adolygiadau hanner ffordd eu cynnal mewn modd amserol i fonitro effeithiolrwydd CAGChau a Chynlluniau Gofal a Chymorth Rhan 6. Fodd bynnag, ni all y gwasanaeth osgoi pwysau ar adnoddau ac mae llwythi achosion y staff wedi cynyddu'n sylweddol. Mae hyn yn effeithio ar allu'r gwasanaeth i gynnal safonau, a dylai'r arweinwyr ystyried a oes angen mwy o gapasiti.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn amrywio yn ôl gwasanaeth. Mewn rhai meysydd, fel gwasanaethau ymwelwyr iechyd a nyrsio mewn ysgolion, ceir perchnogaeth broffesiynol gref a dulliau diogelu rhagweithiol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod diffyg goruchwyliaeth, her broffesiynol a myfyrdod. Mae'r cofnodion yn dangos achosion cyson o beidio ag uwchgyfeirio pryderon mynych, sy'n awgrymu bod cyfleoedd yn cael eu colli i arwain ymarfer diogelu â gweledigaeth a diben.

Mae'r dull o ymdrin â risg yn seiliedig ar ddiffyg yn bennaf, gan ganolbwyntio ar y problemau a wynebir yn hytrach na chryfderau posibl neu ffactorau amddiffynnol. Er bod rhai achosion yn cyfeirio at ymyriadau fel Cynlluniau Gofal a Chymorth, adnoddau FRAIL, neu asesiadau Cymorth Cynnar, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu defnyddio i rymuso'r unigolyn neu ei deulu i ddeall risgiau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae diffyg camau dilynol neu ddolenni adborth hefyd yn ei gwneud hi'n anodd mesur a wnaeth yr ymyriadau wella llesiant neu ddim ond bodloni gofynion gweithdrefnol.

Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn bryder, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant lefel 3 ar ddiogelu plant. Dim ond 37% o'r staff meddygol a deintyddol oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ym mis Rhagfyr 2024. Darperir hyfforddiant yn rheolaidd, ond mae lefelau presenoldeb yn isel.

Mae angen prosesau sicrhau ansawdd a monitro cyson er mwyn i'r Bwrdd Iechyd fodloni ei hun bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer. Er bod data ar gydymffurfiaeth yn cael eu cofnodi drwy gyfarfodydd llywodraethu diogelu, mae angen gwella camau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion.

Nid oedd y sampl o ffeiliau a welsom yn dangos bod prosesau amddiffyn plant yn cael eu goruchwylio. Roedd anghysondebau o ran y broses o gadw cofnodion, heb fawr ddim cofnodion a diffyg gwaith dadansoddi.

Mae capasiti'r staff (mewn rhai timau) wedi effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i reoli prosesau diogelu, gan gynnwys ym meysydd sicrhau ansawdd, hyfforddiant a chydymffurfiaeth trefniadau goruchwylio. Lle mae diffygion staffio wedi gwella, mae tystiolaeth o ffocws newydd ar y meysydd ymarfer allweddol hyn.

Mae cydymffurfiaeth mewn perthynas â goruchwylio grwpiau diogelu yn isel o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb a'r ffaith nad yw'r dull gweithredu yn cael ei roi ar waith ar gyfer rhai grwpiau perthnasol (fel CAMHS, Gwasanaethau Iechyd Rhywiol a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd). Yn yr un modd, ceir presenoldeb anghyson mewn sesiynau adolygu cymheiriaid misol. Mae goruchwylio prosesau diogelu yn elfen bwysig o fyfyrio a dysgu y dylid eu blaenoriaethu, ochr yn ochr â hyfforddiant ar ddiogelu.

Nid yw systemau TG niferus y Bwrdd Iechyd yn helpu i gasglu a rhannu gwybodaeth mewn modd amserol, pan fydd pryderon yn ymwneud â diogelu yn codi. Dylai'r arweinwyr nodi cyfleoedd i wella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Mae'r ddibyniaeth ar bediatregwyr acíwt yn cwblhau archwiliadau meddygol amddiffyn plant mewn ysbyty y tu allan i'r sir, am nad oes gwasanaeth ar gael yn Sir Benfro, yn creu her hirdymor na ellir ei datrys i bob asiantaeth dan sylw. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar amseroldeb ac ansawdd archwiliadau meddygol amddiffyn plant; yn enwedig am fod pobl yn wynebu straen diangen pan fo angen cymorth arnynt fwyaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y ffordd o orau o ddatrys y problemau hyn er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy amserol a di-dor, ar gyfer yr asiantaethau a'r plant a'r teuluoedd dan sylw.

Mae nyrsys ysgol yn dilyn y Fframwaith ar Gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru. Er bod rhywfaint o dystiolaeth bod nyrsys ysgol yn cael eu cynnwys yn y broses amddiffyn plant, dylid atgyfnerthu hyn ymhellach. Mae'r cyfathrebu rhwng nyrsys ysgol a gweithwyr cymdeithasol, i gasglu diweddariadau a rhannu gwybodaeth, yn anghyson. Gwelsom dystiolaeth o oedi cyn cwblhau asesiadau iechyd pan fo plant yn rhan o'r broses amddiffyn plant. Gall oedi o'r fath effeithio ar y gallu i nodi pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelu a'u rheoli mewn modd amserol.

Roedd y broses o gwblhau dogfennau diogelu ac ansawdd y dogfennau hynny yn amrywio rhwng gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys diffyg genogramau, cronolegau a blaendaflenni neu rai anghyflawn. Mae hyn yn arwain at fylchau sylweddol wrth rannu gwybodaeth a dealltwriaeth heb ei datblygu'n ddigonol o risgiau, a all arwain at golli cyfleoedd i ymyrryd.

**Addysg**

Ar hyn o bryd, mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn unig rôl a fyddai'n elwa ar adnoddau ychwanegol i ddatblygu capasiti a chynnal yr ymarfer cadarn sydd ar waith ar hyn o bryd.

**Heddlu Dyfed-Powys**

Mae'r heddlu yn parhau i wella ei systemau gwybodaeth, fel bod gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar gael i'w bersonél am risgiau ac unigolion agored i niwed. Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn adolygu data rheoli perfformiad ac mae'r timau gweithredol yn defnyddio'r wybodaeth i flaenoriaethu eu gweithgarwch. Fodd bynnag, mae anghysondeb o hyd o ran ble y caiff gwybodaeth a chofnodion digwyddiadau a chyfarfodydd amddiffyn plant eu cadw ar systemau'r heddlu.

Mae hyn yn golygu, er bod yr heddlu yn cadw gwybodaeth sy'n berthnasol i risg plentyn a'i natur agored i niwed, nid yw bob amser ar gael i'r staff. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl na chaiff gwybodaeth berthnasol am natur agored i niwed y plentyn a'r rhai sy'n peri risg iddo ei hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau am ddiogelu. Gallai cofnodion cywir a defnyddio baneri ar Niche wella gallu swyddogion a staff rheng flaen i gael gafael ar y wybodaeth hon.

**Gwasanaethau Plant**

Mae'r arweinwyr corfforaethol a'r aelodau wedi gwella eu dealltwriaeth o'r dirwedd gofal cymdeithasol ac anghenion pobl yn Sir Benfro yn ddiweddar. Mae'r buddsoddiad diweddar yn y Tîm Asesu Gofal Plant a gwasanaethau atal yn dangos y gwelliant hwn a'r ymrwymiad cynyddol i ofal cymdeithasol.

Er gwaethaf hyn, dywed y staff gweithredol fod bwlch sylweddol rhwng capasiti gweithredol a galw. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar hunaneffeithlonrwydd a morâl y gweithlu, ac mae timau'n teimlo'n anniogel wrth ymarfer. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar gapasiti gofal cymdeithasol ac anghenion plant yn Sir Benfro fel mater o flaenoriaeth.

O ystyried y morâl isel, mae angen i'r staff gael eu cynnwys a'u clywed. Maent am oresgyn rhwystredigaethau a chefnogi gwelliannau. Fodd bynnag, mae diffyg cysylltiad rhyngddynt â'r arweinwyr corfforaethol a'r cynlluniau strategol. Er mwyn cefnogi prosesau recriwtio a chadw staff, dylai'r arweinwyr weithio gyda'r staff i gyd-lunio cynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau a datblygu dulliau cyfathrebu mewn modd cefnogol a thosturiol.

Dywed ymarferwyr nad yw eu hanghenion llesiant yn cael eu diwallu mewn modd ystyrlon gan nad ydynt yn cael digon o gymorth yn dilyn digwyddiadau critigol. Dylai'r

arweinwyr corfforaethol ganolbwyntio o'r newydd ar lesiant y staff er mwyn cefnogi sefydlogrwydd y gweithlu.

Dywed ymarferwyr a rheolwyr timau ar draws y gwasanaeth yn gyson fod llwythi achosion yn rhy uchel. Gwelwyd bod hyn yn tanseilio ansawdd yr ymarfer, gyda rhestrau aros am asesiadau ac oedi cyn cynnal ymchwiliadau a47 a chynadleddau amddiffyn plant cychwynnol. Rhaid sicrhau bod adnoddau staffio digonol ar waith i sicrhau bod plant yn cael gofal a chymorth effeithiol. Rhaid rhoi sylw penodol i'r disgwyliedig presennol o ran llwythi achosion a ph'un a yw'r rhain yn realistig.

Er bod rhai enghreifftiau da o gofnodion yn cynnwys dadansoddiad clir o risgiau a chamau gweithredu, roedd yr ymarfer yn amrywio a dylid ei atgyfnerthu. Rhaid i ymarferwyr a rheolwyr sicrhau bod penderfyniadau allweddol a chamau gweithredu CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol) mewn perthynas â phenderfyniadau am amddiffyn plant yn cael eu cofnodi'n gyson.

Rhaid i'r awdurdod lleol gynnal ffocws cyson ar risgiau a nodwyd a sicrhau bod camau gweithredu i'w lliniaru/dileu yn ddigonol. Mae angen gwelliannau penodol mewn perthynas ag ymatebion i risgiau hysbys sy'n gysylltiedig â throseddwyr rhywiol mewn cyd-destun teuluol.

Mae angen i'r Tîm Dyletswydd Brys ymateb i risgiau i bob oedolyn a phlentyn yn Sir Benfro. Mae adegau pan nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ddigonol, a gwnaethom nodi risgiau penodol wrth baru plant â lleoliadau y tu allan i oriau. Dylai'r arweinwyr adolygu'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau bod arferion diogel ar waith.

Mae'r awdurdod lleol wedi newid i System Rheoli Gwybodaeth ac Achosion (ICMS) newydd. Nid yw ymarferwyr, rheolwyr nac arweinwyr yn hyderus am argaeledd na dibynadwyedd y data sy'n dod i law. Rhaid i'r awdurdod sicrhau y caiff gwelliannau amserol eu gwneud fel bod modd i'r arweinwyr fonitro perfformiad ymarferwyr a'u cydymffurfiaeth â safonau statudol yn hyderus.

Mae gan y gwasanaethau plant a theuluoedd fframwaith sicrhau ansawdd nad yw'n cael ei roi ar waith yn llaw. Mae'r arweinwyr wedi dargyfeirio adnoddau i roi'r system ICMS newydd ar waith. Heb ddata dibynadwy neu weithgareddau sicrhau ansawdd cyson, ni all yr arweinwyr gadw golwg digonol ar gydymffurfiaeth neu ansawdd ymarfer. Dylai'r arweinwyr ganolbwyntio o'r newydd ar sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymarfer bob amser yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt.

Nid yw'r staff bob amser yn cael sesiynau goruchwyliaeth sy'n diwallu eu hanghenion datblygu. Mae ansawdd y goruchwylio yn amrywio hefyd. Mae angen gwneud gwelliannau penodol mewn perthynas â chymorth ar gyfer llesiant y staff, y defnydd cyson o gamau gweithredu CAMPUS, ac ymarfer myfyriol. Mae'r arweinwyr yn

ymwybodol o'r mater hwn a dylent sicrhau y caiff gwelliannau a gynlluniwyd eu gwneud mewn modd amserol.

Nid oes gan y timau y systemau na'r capasiti i gefnogi ymarfer myfyriol a seiliedig ar gryfderau. Dylai'r arweinwyr ystyried cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau hyn er mwyn hybu ansawdd yr ymarfer a gwydnwch y gweithlu.

## Pobl

### Trefniadau Partneriaeth – Cryfderau

Ar y cyfan, mae gweithwyr proffesiynol yn nodi plant y mae angen eu hamddiffyn yn effeithiol ac yn hyrwyddo eu diogelwch drwy rannu pryderon mewn modd amserol.

Er nad yw llais y plentyn bob amser yn cael ei gofnodi gan bob asiantaeth, mae hyn yn un o gryfderau'r gwasanaethau addysg a phlant. Caiff hyn ei gefnogi gan ddulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma.

Mae methodoleg Arwyddion Diogelwch yn hyrwyddo dull cyson o gyfathrebu â theuluoedd mewn cynadleddau achos amddiffyn plant. Ni fydd cadeiryddion cynadleddau yn hwyluso cynadleddau oni bai bod gweithwyr proffesiynol wedi rhannu eu hadroddiadau â'r rhieni. Mae hyn yn helpu'r rhieni i baratoi ar gyfer y gynhadledd mewn ffordd ystyrlon.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae tuedd i golli ffocws ar blant unigol os ystyrir bod sefyllfa brawd neu chwaer yn fwy brys neu gymhleth. Rhaid i asesiadau, cynlluniau a chyfarfodydd barhau i ganolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau unigol pobl plentyn mewn grwpiau o frodyr a chwiorydd.

Nid yw'r broses o gofnodi ethnigrwydd ac iaith yng nghofnodion y Bwrdd Iechyd a chofnodion yr heddlu yn gyson. Dylai'r arweinwyr sicrhau bod gwybodaeth ddemograffig bwysig yn cael ei chofnodi'n gywir ac yn glir.

### Asiantaeth Unigol – Cryfderau

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae asesiadau a chofnodion ymwelwyr iechyd yn nodi cyd-destun ymweliadau, arsylwadau ar y plentyn, a darlun o brofiad bywyd dyddiol y plentyn, ac maent yn cyfeirio at risgiau cyd-destunol ac ymateb rhieni.

Roedd tystiolaeth o chwilfrydedd proffesiynol yng nghofnodion ymwelwyr iechyd a nyrsys cymunedol plant.

Roedd llais y plentyn yn amlwg yn asesiadau iechyd plant sy'n derbyn gofal ac roedd nifer o fentrau ar waith i gofnodi llais Plant sy'n Derbyn Gofal.

### Addysg

Gall aelodau'r cyhoedd wneud atgyfeiriadau dienw am les plentyn. Yn dilyn atgyfeiriad, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cynnal ymweliad cartref/gwiriad lles. Mae hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Mae nifer cynyddol o ysgolion yn Sir Benfro yn cyflogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd. Mae'r swyddogion hyn yn chwarae rôl gref mewn ysgolion ac yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, drwy feithrin cydberthnasau â theuluoedd a helpu i gefnogi eu hanghenion. Drwy gyfarfodydd rhwydwaith Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd rheolaidd, mae gweithwyr yn cael y cyfle i rannu eu gwybodaeth i atgyfnerthu eu rôl a meithrin dealltwriaeth ddyfnach o waith asiantaethau eraill.

Mae'r cydberthnasau gwaith cadarnhaol rhwng staff ysgolion/yr Uned Cyfeirio Disgyblion a rhieni/gofalwyr yn gryfder sylweddol. Mae ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â rhieni a gofalwyr, sy'n cefnogi dull cydlynol o gefnogi anghenion y plentyn. Mae ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn deall anghenion eu disgyblion a'u teuluoedd mwyaf agored i niwed yn eithriadol o dda. Mae enghreifftiau da o lais y plentyn a'r teulu yn cael eu clywed a'u cynnwys mewn cynlluniau a phenderfyniadau. Mae ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ffynhonnell cymorth i deuluoedd ac maent yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth er budd y plentyn.

Mae llais y plentyn yn gryfder sylweddol. Lle y bo'n briodol, mae disgyblion yn cyfrannu at eu cynlluniau a gallant fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau. Maent yn hyderus i drafod yr anghenion a'r dymuniadau hyn ag aelodau o staff yr ysgol y maent yn ymddiried ynddynt. Mae plant yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a bod eu llesiant yn bwysig i'r oedolion o'u cwmpas. Mae oedolion y gellir ymddiried ynddynt i ddisgyblion droi arnynt.

### Heddlu Dyfed-Powys

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

### Gwasanaethau Plant

Mae staff yn y Tîm Asesu Gofal Plant yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg fel mater o drefn. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn cael y Cynnig Rhagweithiol cyn gynted ag y byddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol.

Er gwaethaf y pwysau a wynebir ar draws timau gwaith cymdeithasol, mae'r staff yn ymrwymedig ac yn canolbwyntio ar wella bywydau plant a theuluoedd yn Sir Benfro. Mae'r staff yn canolbwyntio ar weithio'n gadarnhaol gyda phartneriaid a theuluoedd i gadw plant yn ddiogel.

Mae pwysau o ran galw yn effeithio ar allu ymarferwyr i gofnodi ymweliadau a chyfarfodydd mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ffeiliau yn dangos cyswllt rheolaidd rhwng staff a theuluoedd, ac mae'r rhan fwyaf o ymweliadau a grwpiau craidd yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

Caiff plant eu gweld/gweld ar eu pen eu hunain lle y bo'n briodol. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddeall dymuniadau a theimladau'r plentyn. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ddulliau gwaith uniongyrchol, gan gynnwys y defnydd o deganau a model 'tri thŷ' Arwyddion Diogelwch i ymgysylltu â phlant.

Mae ymarferwyr yn cynnwys rhieni yn gyson ac yn hyrwyddo eu llais. Mae staff y Tîm Asesu Gofal Plant yn cydnabod pwysigrwydd cydsyniad rhieni ac, ar y cyfan, yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau. Gwelsom enghreifftiau o ymdrechion wedi'u dogfennu'n dda gan ymarferwyr i weithio drwy heriau rhieni, gan ddangos chwilfrydedd a dyfalbarhad wrth wneud hynny.

Mae CAGChau a chofnodion cynadleddau yn esbonio pryderon i blant a theuluoedd yn glir. Mae cadeiryddion cynadleddau bron bob amser yn llunio crynodeb o'r gynhadledd yn y person cyntaf, yn uniongyrchol i'r plentyn. Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol ac mae'n sicrhau bod ymarferwyr a theuluoedd yn canolbwyntio ar brofiad bywyd y plentyn.

Mae tystiolaeth o CAGCh a CAGCh Rhan 6 yn cael eu cwblhau i safon uchel a'u hysgrifennu'n effeithiol ar gyfer plant.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Nid oes fawr ddim tystiolaeth, os o gwbl, o sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' yn cael eu cynnal mewn ffordd strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y person. Prin y caiff safbwyntiau, dymuniadau neu nodau eu dogfennau; a lle mae pryder proffesiynol amlwg, mae'n tueddu i ddominyddu dros lais a safbwynt y plentyn neu'r teulu. Yn benodol, mae diffyg llais y plentyn yn thema fynych sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i gynllunio mewn ffordd gydweithredol ac ar sail gwybodaeth.

Pan gaiff ymyriadau eu cofnodi, maent yn aml yn fyr ac yn glinigol ac yn aml, ni chânt eu cofnodi mewn iaith syml. Prin y defnyddir naratif i adlewyrchu profiad bywyd

y plentyn neu'r teulu, neu sut y gallai eu hamgylchiadau effeithio ar eu gallu i aros yn ddiogel, meithrin gwydnwch, neu adfer annibyniaeth. Mae hyn yn tanseilio egwyddorion cydnabod unigolion fel arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain ac mae'n codi pryderon am b'un a yw dulliau diogelu yn gydweithredol ac yn seiliedig ar hawliau mewn gwirionedd.

Mae rhai eithriadau cadarnhaol, fel nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd yn darparu mewnbwn cyson ac yn dangos ymdrechion i ymgysylltu mewn modd ystyrlon. Fodd bynnag, nid dyna'r norm ac nid yw'r enghreifftiau hyn wedi'u hymgorffori'n gyson ar draws gwasanaethau neu rolau proffesiynol. Dylai'r arweinwyr barhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu llais y plentyn yn ymarferol.

### Addysg

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

### Heddlu Dyfed-Powys

Mae anghysondeb o ran y ffordd y mae personél yr heddlu yn cofnodi llais y plentyn. Mae'r uwch-swyddogion yn monitro cyfraddau cwblhau ac ansawdd y cofnodion ar lais y plentyn mewn hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd yn agos. Mae hyn yn atgyfnerthu polisïau'r heddlu ac yn gwella ansawdd yr adroddiadau hyn. Caiff swyddogion newydd eu hyfforddi i ddefnyddio acronym ‘AWARE’ ac mae mewnbwn drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn cefnogi aelodau presennol o'r staff i ddilyn y canllawiau hyn yn gyson. Dylai'r arweinwyr barhau i ganolbwyntio ar wella'r ffordd y mae swyddogion yn cofnodi llais y plentyn yn ymarferol.

### Gwasanaethau Plant

Dywed ymarferwyr ar draws y gwasanaethau plant nad oes ganddynt ddigon o adnoddau ac nad ydynt yn gallu ateb y galw mewn modd amserol. Mae hyn yn effeithio ar wydnwch y staff ac ansawdd eu hymarfer, ac mae pobl yn wynebu safonau anghyson o ganlyniad i bwysau ar y gweithlu.

Byddai plant a theuluoedd yn elwa ar fwy o ffocws ar rôl aelodau estynedig o'r teulu ym mywydau plant. Gall y staff gyfeirio at Gynadleddau Grŵp Teulu a gellid cynnull cyfarfodydd cynllunio diogelwch gan ddefnyddio methodoleg Arwyddion Diogelwch. Fodd bynnag, nid yw'r dulliau gweithredu hyn bob amser yn cael eu defnyddio yn ymarferol.

Mewn cynadleddau a chyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal, nid yw rhieni a phlant bob amser yn cael y cyfle i siarad â chadeiryddion er mwyn rhannu eu safbwyntiau. Mae angen gwella gallu'r Tîm Cynadleddau Amddiffyn Plant a Swyddogion Adolygu Annibynnol i gyrraedd y safonau a amlinellir yng

Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a safonau Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gyson[1].

Yn aml mae cofnodion y grwpiau craidd yn cynnig diweddariadau ar y sefyllfa yn hytrach na gwerthusiad o effeithiolrwydd y CAGCh wrth leihau'r risg o niwed sylweddol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion y grwpiau craidd yn adolygu'r camau a gymerwyd yn gyson a'u bod yn adlewyrchu i ba raddau y mae'r camau hyn wedi cyfrannu at wella profiad bywyd y plentyn a'i amddiffyn rhag niwed.

Mae'r gwasanaethau plant yn aml yn defnyddio ‘cytundebau ysgrifenedig’ gyda rhieni a gofalwyr fel ffordd o hybu diogelwch y plentyn. Er bod y cytundebau hyn yn gallu helpu'r teulu i ddeall yr hyn y cytunwyd arno, dylid hefyd ystyried a yw cytundebau ysgrifenedig yn rhoi ymdeimlad ffug o sicrwydd i weithwyr proffesiynol am ddiogelwch plant. Dylai'r awdurdod lleol adolygu effeithiolrwydd cytundebau o'r fath ac ailedrych ar ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau priodol.

Mae ansawdd cofnodion ymweliadau statudol yn amrywio. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi bod yn rhaid i gofnodion gyfeirio at ddymuniadau a theimladau'r plentyn a newidiadau ym mywyd y plentyn sy'n deillio o roi'r CAGCh ar waith. Gellid gwella'r ffordd y caiff llais plant iau ei hyrwyddo mewn cynadleddau. Gwelsom nifer o gofnodion a oedd yn nodi bod y plentyn yn 'rhy ifanc' i gyfrannu, er ei fod dros oedran cyn ysgol.

Mae tystiolaeth o eiriolaeth yn cael ei chynnig i blant. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn gyson ac mae enghreifftiau o gyfleoedd a gollwyd. Nifer bach o blant sy'n cael eu hatgyfeirio am eiriolaeth ffurfiol. Mae hyn yn dangos nad yw eiriolaeth bob amser yn cael ei chynnig yn rhagweithiol. Rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol o eiriolaeth yn cael ei wneud yn gyson ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

## Partneriaethau ac Integreiddio

### Trefniadau Partneriaeth – Cryfderau

Mae partneriaethau yn cyfrannu at benderfyniadau am ddiogelu ac yn herio ei gilydd mewn modd adeiladol. Mae mewnbwn partneriaid mewn grwpiau craidd a chynadleddau yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a gwaith cynllunio effeithiol. Rydym wedi gweld elfennau o ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac Arwyddion Diogelwch yn cael eu defnyddio yn y fforymau hyn. Dylid atgyfnerthu hyn ymhellach er mwyn sicrhau cysondeb ym mhrofiad plant a theuluoedd.

[1] Adolygu a monitro cynllun gofal a chymorth plentyn neu berson ifanc

Mae personél yr heddlu yn defnyddio acronym ‘AWARE’ i'w helpu i gofnodi gwybodaeth berthnasol a manwl am risgiau, natur agored i niwed, a llais y plentyn mewn hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth am risgiau i blant, ar y cyfan, yn cael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol.

Cynhaliwyd cynllun peilot arloesol, sef Brysbennu Integredig mewn Partneriaeth (PIT), yn ddiweddar i ystyried pob hysbysiad amddiffyn y cyhoedd. Mae'r awdurdod lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn bresennol yn y cyfarfod PIT yn rheolaidd. Mae'r cyfarfod yn asesu ac yn cyfeirio gwybodaeth ar gyfer ymyriadau amlasiantaethol. Mae'r fforwm yn gyfle i wella dulliau o ymdrin â'r trothwy a rhannu gwybodaeth. Mae'r bartneriaeth wedi cael gwerthusiad ac yn ystyried camau gweithredu.

Mae enghreifftiau o gyfathrebu gwych rhwng ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi cymorth staff y Tîm Asesu Gofal Plant ac maent yn mynychu cyfarfodydd y ‘Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a’r Ysgol’ (TAPPAS), sy'n eu galluogi i rannu gwybodaeth yn effeithiol. Gwahoddir ysgolion i bob cyfarfod amddiffyn plant. Maent yn teimlo eu bod yn bartneriaid cyfartal a bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Mae'r awdurdod lleol yn trefnu cyfarfodydd rhwydwaith defnyddiol lle mae Personau Diogelu Dynodedig ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn cwrdd i drafod pryderon, rhannu arferion da, a chael hyfforddiant a diweddariadau penodol. Mae staff ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn yn fawr gan eu bod yn meithrin cydweithio, yn gwella sgiliau a gwybodaeth Personau Diogelu Dynodedig, ac yn cyfrannu at amgylchedd mwy diogel a chefnogol i ddisgyblion.

Mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn meddu ar wybodaeth gadarn am bob ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion Rhoddir cyngor amserol a defnyddiol i ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Caiff ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion ddiweddariadau rheolaidd am ddiogelu fel rhan o gylchlythyrau addysg wythnosol.

Mae systemau cyfathrebu cadarn ac effeithiol ar waith rhwng ysgolion, yr Uned Cyfeirio Disgyblion, y Rheolwr Diogelu mewn Addysg, a gwasanaethau'r awdurdod lleol. Mae'r rhain yn galluogi'r arweinwyr a swyddogion i rannu gwybodaeth yn effeithiol ac i nodi risgiau posibl a chryfderau yn ymarferol. Mae ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwerthfawrogi rôl effeithiol a chefnogol iawn y Rheolwr Diogelu mewn Addysg pan fyddant yn nodi pryderon nad oes camau'n cael eu cymryd yn eu cylch mewn modd amserol, yn eu barn nhw.

Defnyddir Ymgyrch Encompass i roi gwybodaeth i ysgolion am blant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin yn ddomestig. Mae'r bartneriaeth yn ymestyn y trefniant hwn i gynnwys darparwyr gofal y blynyddoedd cynnar. Bydd y cam cadarnhaol hwn yn gwella diogelwch plant iau agored i niwed a'u rhieni.

Mae tîm penodol o swyddogion yr heddlu yn gweithio gydag ysgolion lleol. Mae'r swyddogion hyn wedi'u hyfforddi i ymchwilio a diogelu plant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin yn ddigidol ac ar-lein, drwy ddulliau fel secstio a deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r swyddogion yn gweithio'n agos gyda chymunedau ysgolion i ddiogelu plant a gwneud yn siŵr nad ydynt yn cael eu troseddoli'n ddiangen.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Er bod tystiolaeth o brosesau rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng partneriaid, dylid gwella hyn mewn rhai meysydd.

Nid yw ymarferwyr bob amser yn mynd ar drywydd atgyfeiriadau o dan y Ddyletswydd i Roi Gwybod. Os na fydd yr unigolyn a roddodd wybod am yr achos i ddechrau yn ysgrifenedig wedi cael cydnabyddiaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol o fewn saith diwrnod gwaith, yna rhaid iddo gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol eto. Rhaid i'r ymarferydd sy'n rhoi gwybod am yr achos gofnodi canlyniad unrhyw drafodaeth a'r penderfyniad sy'n deillio ohoni.

Gan nad oes hyb diogelu amlasiantaethol neu dimau diogelu wedi'u cyd-leoli, caiff trafodaethau strategaeth cychwynnol fel arfer eu cynnal rhwng y gwasanaethau plant a'r heddlu yn yr Uned Atgyfeirio Ganolog. Mae rhai cofnodion hefyd yn dangos cyfleoedd a gollwyd i gynnull cyfarfod strategaeth, lle mae trafodaethau wedi symud ymlaen yn syth i ymchwiliadau a47 a chynhadledd amddiffyn plant gychwynnol.

Mae adegau pan fyddai'n fuddiol cael cyfraniadau amlasiantaethol ehangach yn y cyfarfodydd hyn. Er enghraifft, prin y caiff atgyfeirwyr a gweithwyr cymdeithasol dynodedig eu cynnwys mewn trafodaeth strategaeth, gan fod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnull gan y Tîm Asesu Gofal Plant a'r heddlu. Gallai mewnbwn gan Arweinwyr Diogelu Corfforaethol ym maes Iechyd ac Addysg hefyd gefnogi'r broses o rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau yn absenoldeb ymarferwyr sy'n ymwneud â'r achos.

Dylai ymarferwyr priodol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol gael eu cynnwys o leiaf. Dylai'r awdurdod lleol ystyried pa mor frys yw'r drafodaeth, faint o asiantaethau y mae angen eu cynnwys, a difrifoldeb y risg. Po fwyaf cymhleth a risg uchel yw'r pryderon, y mwyaf gwerthfawr y gall cyfarfod strategaeth wyneb yn wyneb fod. Y peth pwysig yw casglu digon o wybodaeth i lunio barn gychwynnol. Dylai partneriaid gydweithio i ddatblygu systemau effeithiol i bartneriaid gyfrannu'n gyson at drafodaethau a chyfarfodydd strategaeth.

Byddai sicrhau bod systemau ar waith i helpu i rannu gwybodaeth mewn modd amserol yn gwella ymarfer diogelu hefyd. Er enghraifft, ni chaiff canlyniad a

chofnodion cyfarfodydd strategaeth bob amser eu rhannu â staff sy'n ymwneud â'r achos mewn modd amserol. Rhaid i unrhyw wybodaeth a rannwyd, yr holl benderfyniadau a wnaed, a'r sail dros wneud y penderfyniadau hynny, gael eu cofnodi'n glir a'u rhannu o fewn un diwrnod gwaith â phawb sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth.

Caiff cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol fel arfer eu canslo pan nad yw ymarferwyr a phartneriaid yn cwblhau ac yn rhannu adroddiadau cyn y gynhadledd. Byddai cynnwys gweithwyr proffesiynol ar gam cynharach yn yr ymchwiliad amddiffyn plant yn helpu i wella amseroldeb adroddiadau. Byddai hefyd yn sicrhau bod ymarferwyr y dynodwyd tasgau iddynt yn y drafodaeth/cyfarfod strategaeth yn glir ynghylch y tasgau hynny ac yn gallu rhoi'r camau gweithredu a briodolwyd ar waith heb aros i gael y cofnod.

Dylid rhannu pob CAGCh â phartneriaid perthnasol mewn modd amserol. Mae'r ymarfer hwn yn anghyson. Dylai'r cynllun amlinellol gael ei roi ar waith a'i ddatblygu gan grŵp craidd o ymarferwyr, gan gadw mewn cysylltiad uniongyrchol â'r plentyn a'r teulu. Mae'n gofyn am waith partneriaeth rhwng y grŵp craidd a'r plentyn a'r teulu. Fodd bynnag, mae'r arfer o rannu cynlluniau manwl a chofnodion grwpiau craidd yn amrywio, a gall hyn achosi oedi wrth roi camau ar waith i sicrhau diogelwch a chyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Rhaid i'r awdurdod lleol gynnal y CAGCh a'i rannu â'r teulu ac asiantaethau partner.

**Asiantaeth Unigol – Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Caiff y Bwrdd Iechyd ei gynrychioli'n gyson mewn cyfarfodydd amlasiantaethol, gan gynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'i is-grwpiau.

Mae cofnodion yn dangos bod staff iechyd yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill, ac mae tystiolaeth o bresenoldeb mewn cynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd.

Caiff CAMHS eu cynrychioli ar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac yn y Grŵp Rhianta Corfforaethol, ac maent yn cyfrannu at y rhaglen ‘Mewngymorth’ i ysgolion ac yn ymgysylltu'n dda a phrosesau statudol, pan fydd ganddynt wybodaeth i'w rhannu.

Mae 10 cartref gofal preswyl i blant yn Sir Benfro ac mae'r pediatregydd a'r nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal yn ymweld â nhw'n rheolaidd i ddarparu cymorth, hyfforddiant, ac asesiadau iechyd.

Mae tystiolaeth o gyfathrebu da rhwng timau amlddisgyblaethol a gofal cymdeithasol, gyda'r plentyn neu'r plentyn heb ei eni wrth wraidd y trafodaethau. Er

enghraifft, cynhelir cyfarfodydd mynych rhwng timau iechyd meddwl amenedigol ac arweinwyr diogelu, a thimau amlddisgyblaethol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Ceir proses drosglwyddo strwythuredig rhwng bydwragedd ac ymwelwyr iechyd ac mae'r defnydd o system SharePoint ddigidol yn helpu i rannu gwybodaeth.

**Addysg**

Caiff ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion eu cynrychioli'n dda mewn cyfarfodydd grwpiau craidd a chynadleddau amddiffyn plant. Maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n ddiwyd er mwyn sicrhau bod diogelwch a llesiant eu disgyblion yn brif flaenoriaeth.

Mae gan bob ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion Swyddog Lles Addysg dynodedig. Mae Swyddogion Lles Addysg yn darparu lefel uchel o gymorth i ysgolion, yr Uned Cyfeirio Disgyblion, a'u disgyblion. Er enghraifft, maent yn cynnal gwiriadau lles rheolaidd yng nghartrefi disgyblion, fel arfer os bydd plant yn colli addysg neu'n absennol heb reswm. Mae eu gwaith yn cael effaith gadarnhaol ac yn gwella presenoldeb llawer o ddisgyblion agored i niwed.

**Heddlu Dyfed-Powys**

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

**Gwasanaethau Plant**

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i newid i fodelau gofal nid er elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac mae cynlluniau ar waith i gynyddu digonolrwydd lleoliadau. Agorodd yr awdurdod lleol gartref plant newydd ym mis Medi 2024 ac mae cyfleoedd ar gyfer datblygiadau pellach yn cael eu hystyried. Mae hyn yn her genedlaethol, ac mae'n gadarnhaol clywed bod aelodau yn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn. Mae datblygu swyddogion comisiynu hefyd wedi helpu i lywio'r farchnad a sicrhau ansawdd lleoliadau.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Roedd diffyg llais a phrofiad bywyd y plentyn yn thema fynych mewn perthynas â chofnodion rhai plant oedran ysgol. Dylai'r arweinwyr weithio gydag ymarferwyr a'r awdurdod lleol i atgyfnerthu llais y plentyn mewn cofnodion a sicrhau bod dogfennau pwysig yn cael eu rhannu mewn modd amserol.

Nid oedd CAGCh na chofnodion grwpiau craidd yn y cofnodion iechyd a welsom, felly roedd hi'n anodd gweld cynnydd, a byddai'n anodd herio unrhyw oedi.

Mae ymyriadau diogelu yn aml yn cael eu cynllunio ar gyfer pobl, nid mewn partneriaeth â nhw. Caiff cynlluniau eu harwain gan weithwyr proffesiynol, heb fawr ddim tystiolaeth bod teuluoedd neu unigolion wedi'u cynnwys wrth osod blaenoriaethau, nodi datrysiadau neu bennu sut beth yw llwyddiant. Hyd yn oed pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal, mae'r iaith a ddefnyddir mewn dogfennaeth yn awgrymu bod ffocws ar atebolrwydd proffesiynol yn hytrach na chyfrifoldeb a rennir.

Nid yw gweithwyr proffesiynol bob amser yn mynegi eu pryderon mewn ffyrdd a fyddai'n cefnogi dealltwriaeth a rennir neu gynlluniau wedi'u cydgynhyrchu. Lle y caiff pryderon eu mynegi, mae diffyg cyfathrebu clir a hygyrch sy'n gwahodd yr unigolyn i fod yn rhan o broses gydweithredol. Dylid atgyfnerthu partneriaethau â phobl. Mae hyn yn gofyn am newid diwylliannol o ddulliau diogelu a arweinir gan brosesau i ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n helpu pobl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol.

**Addysg**

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

**Heddlu Dyfed-Powys**

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

**Gwasanaethau Plant**

Ni roddir gwybod i atgyfeirwyr bob amser am ganlyniad atgyfeiriadau (o dan y Ddyletswydd i Roi Gwybod) a wnaed ganddynt ac mae anghytundeb proffesiynol am briodoldeb llawer o atgyfeiriadau. Dylai'r awdurdod lleol roi gwybod i atgyfeirwyr am ganlyniad atgyfeiriadau, fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Drwy gyflawni'r ddyletswydd statudol hon, bydd partneriaid hefyd yn gallu coladu gwybodaeth am dueddiadau a chanlyniadau o atgyfeiriadau. Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu adolygiad annibynnol o drothwyon, a dylai gynnwys partneriaid yn yr adolygiad hwn. Dylai'r arweinwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i feithrin dealltwriaeth well o drothwyon y Ddyletswydd i Roi Gwybod.

## Atal

**Trefniadau Partneriaeth – Cryfderau**

Mae'r awdurdod lleol yn anfon diweddariad misol o'r holl blant sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant at yr heddlu. Mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn diweddaru'r systemau gyda'r wybodaeth hon, sy'n rhoi gwybod i swyddogion rheng

flaen sy'n ymateb i alwadau am wasanaeth am bresenoldeb plant agored i niwed. Mae trefniant tebyg ar waith ar yfer troseddwyr rhyw cofrestredig.

Mae dadansoddwyr gwybodaeth yr heddlu yn diweddaru proffiliau ar natur agored i niwed cymunedau ac achosion o gamfanteisio'n droseddol ac yn rhywiol ar blant yn rheolaidd. Mae'r wybodaeth hon yn cefnogi gweithgarwch amlasiantaethol i darfu ar droseddwyr ac atal plant rhag cael eu herlid.

Mae'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn gryfder sylweddol. Mae amrywiaeth o fentrau o ansawdd uchel wedi'u sefydlu'n dda a'u gwreiddio. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i wella llesiant a chanlyniadau plant a phobl ifanc.

Mae dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma sydd wedi'u sefydlu'n dda wedi'u gwreiddio yn ymarfer ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau dal i fyny dyddiol gydag aelodau allweddol o'r staff, sesiynau gyda Chynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA), oedolion empathetig, ac ymyriadau therapiwtig un i un. Caiff y dulliau gweithredu hyn eu hategu gan raglen datblygu proffesiynol ar gyfer staff, sy'n cynnal lefelau uchel o arbenigedd wrth gefnogi llesiant emosiynol disgyblion. Mae'r dull gweithredu hwn a arweinir gan yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion, ac mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol wedi lleihau ar draws ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwella ei gymorth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Er enghraifft, mae mwy o gyllid i gynyddu nifer y swyddogion wedi galluogi'r awdurdod lleol i gynnal digwyddiadau cymdeithasol. Caiff disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref eu holrhain yn ofalus er mwyn nodi cymorth posibl. Mae gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol yn cynnig cyngor ac arweiniad i deuluoedd plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae hyn yn helpu i feithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol â theuluoedd er mwyn diogelu anghenion disgyblion yn dda.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Nododd yr arolygiad rai tueddiadau a themâu penodol mewn perthynas â threfniadau diogelu yn Sir Benfro. Nododd arweinwyr ar draws asiantaethau partner ymwybyddiaeth amrywiol o'r themâu hyn.

Mae'r ffordd y rhoddir gwybod bod plant ar goll yn anghyson. Nid yw'r canllawiau i ysgolion/yr Uned Cyfeirio Disgyblion a staff cartrefi gofal bob amser yn cael eu deall a'u dilyn, cyn cysylltu â'r heddlu i roi gwybod bod plant ar goll. Mae hyn yn effeithio ar amser gweithredol yr heddlu ac yn stigmateiddio rhai plant, gan gynnwys y rhai sydd o dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae genedigaeth rydd yn bryder cynyddol i'r Bwrdd Iechyd, a fydd yn gofyn am waith cydweithredol ehangach. Nododd yr awdurdod lleol hefyd duedd cynyddol o blant oedran cynradd yn cael eu niweidio drwy ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon, gan gynnwys crac cocên. Dylai partneriaid sicrhau bod gwybodaeth am themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg yn cael ei rhannu mewn modd amserol a dylent gydweithio i darfu ar risgiau o'r fath a'u lleihau yn y boblogaeth ac ar gyfer plant unigol.

Er bod cryfderau yn ymateb yr awdurdod lleol a gwasanaethau addysg i ddisgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, nid oedd yr heddlu wedi'u cynnwys yn ddigonol yn y trafodaethau hyn a hoffai ystyried cyfleoedd i wella'r broses o rannu gwybodaeth.

Mae'r gymuned sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref wedi mwy na dyblu yn Sir Benfro ers 2019. Mae *canllawiau addysg ddewisol yn y cartref Llywodraeth Cymru* [2]yn nodi ei bod yn hanfodol bod awdurdodau lleol yn gweithio'n barhaus gydag asiantaethau partner a bod ganddynt drefniadau ar waith i nodi plant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol. Dylid darparu cymorth i deuluoedd fel rhan o ddull amlasiantaethol cydgysylltiedig. Mae'r gallu i weithio ar draws asiantaethau a rhyngddynt yn hanfodol i feithrin dealltwriaeth well o amgylchiadau'r teulu cyfan a'i anghenion ar gyfer gofal a chymorth. Gall cydberthnasau gwaith cryf a dull gweithredu amlasiantaethol atal anghenion rhag gwaethygu a nodi pan fydd plentyn neu aelod o'r teulu yn wynebu risg.

O fewn paramedrau cyfreithiol, dylai partneriaid fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu gwybodaeth a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael er mwyn nodi a diogelu'r plant hynny sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref a all wynebu risg o niwed yn well. Dylai'r awdurdod lleol geisio datblygu protocol rhannu gwybodaeth sy'n esbonio'r amgylchiadau lle y gellir rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau sy'n cefnogi plant, a lle y dylid gwneud hynny.

**Asiantaeth Unigol – Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Gwelsom dystiolaeth o atgyfeiriadau priodol o dan y Ddyletswydd i Roi Gwybod yn cael eu cwblhau, ar ôl nodi pryderon yn ymwneud â diogelu yn ystod ymweliadau cartref ac wrth weld unigolion yn yr ysbyty. Lle y bo'n briodol, mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn nodi teuluoedd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ac yn rhoi pecyn o ymweliadau dwys ar waith.

---

[2] Canllawiau addysg ddewisol yn y cartref HTML] | LLYW.CYMRU

**Addysg**

Mewn ysgolion ac yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, mae cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n dda yn cynnig cyfleoedd i addysgu disgyblion am bwysigrwydd iechyd meddwl cadarn, llesiant emosiynol a chydberthnasau iach.

Mae ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn meithrin cysylltiadau buddiol ag asiantaethau a sefydliadau eraill i gefnogi anghenion disgyblion. At hynny, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni a gofalwyr gael budd o gymorth sefydliadau allanol yn ystod y diwrnod ysgol.

**Heddlu Dyfed-Powys**

Mae'r heddlu yn sicrhau bod risgiau mewn achosion o gam-drin domestig yn cael eu hasesu'n gywir. Mae personél arbenigol yn adolygu pob adroddiad ar achos o gam-drin domestig ac yn dyrannu ymchwiliadau a chamau diogelu i gefnogi dioddefwyr. Mae hyn yn golygu bod plant yn cael eu nodi'n ddioddefwyr eu hunain ac yn cael eu hatgyfeirio am gymorth.

Nod rhaglen INTACT a arweinir gan yr heddlu yw helpu plant a phobl ifanc yr aseswyd eu bod yn wynebu risg dod yn rhan o achosion o droseddu. Mae cylchoedd gorchwyl clir yn gwneud yn siŵr bod y cymorth penodol hwn yn canolbwyntio ar blant nad ydynt yn cael unrhyw ymyriadau statudol eraill.

Mae rheolwyr Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn gwirio i weld a yw swyddogion ateb galwadau yn cofnodi gwybodaeth ar y system am natur agored i niwed y galwr;  ac a yw ymatebwyr yn cael eu hatgoffa i gofnodi llais y plentyn ac i ddefnyddio camerâu a wisgir ar y corff.

Mae proses glir ar gyfer adroddiadau am blant coll. Caiff pob adroddiad ei gofnodi yn erbyn cwestiwn a bennwyd ac yna caiff y risg ei hasesu gan reolwr gwybodaeth yr Heddlu. Mae'r heddlu wedi ailbenodi cydgysylltydd unigolion coll, sy'n gwneud yn siŵr bod pob digwyddiad yn cael ei gofnodi'n gywir a'i rannu â phartneriaid perthnasol. Mae'n gadarnhaol nodi nad yw plant coll byth yn cael eu cofnodi'n rhai risg isel.

**Gwasanaethau Plant**

Yng nghyd-destun pwysau ar y gweithlu, mae'n gadarnhaol nodi bod y staff yn parhau i ganolbwyntio ar atal er mwyn helpu i ddiwallu anghenion teuluoedd, gan leihau'r risg y bydd y sefyllfa'n gwaethygu a niwed i'r plentyn.

Mae pwyslais ar atal yn amlwg er mwyn helpu teuluoedd i fynd i'r afael â materion yn gynnar. Er enghraifft, mae'r Tîm Cymorth i Deuluoedd yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i leihau risgiau, a nod y Tîm Ar Ffiniau Gofal yw atal plant rhag dod yn rhan o'r system gofal. Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn pryderu am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn y timau hyn, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar amseroldeb cymorth a threfniadau gofal llai dwys.

Mae'r arweinwyr yn ystyried cyfleoedd i gynyddu capasiti ar draws y gwasanaeth a chanolbwyntiodd buddsoddiad cychwynnol ar atal. Mae hyn yn cynnwys 13 o swyddi ychwanegol yn y Tîm Asesu Gofal Plant. Rhagwelir y bydd hyn yn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu mewn modd amserol, ac yn helpu gweithwyr gofal cymwysedig i ganolbwyntio ar ymyriadau statudol.

Mae'r awdurdod lleol bellach yn ystyried cyfleoedd i gynyddu capasiti'r gweithlu drwy ddatblygu mwy o swyddi atal a swyddi statudol ar draws y gwasanaethau plant. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r prosiect Ymyriadau Cynnar ar gyfer Rhieni a Babanod, prosiect Camu i’r Adwy cyn Camu yn Ôl Rhwydwaith Maethu, a Thîm Ar Ffiniau Gofal yr awdurdod lleol. Mae ymarferwyr a theuluoedd yn canmol y gwasanaethau hyn yn fawr. Mae'n gadarnhaol nodi bod aelodau yn dangos eu cefnogaeth drwy ddarparu cyllid, ac mae rhywfaint o'r arian ychwanegol wedi'i glustnodi i ariannu mwy o'r swyddi hyn.

Gellir atgyfeirio plant a theuluoedd at Rwydwaith Cymorth i Deuluoedd Sir Benfro am help cynnar a chymorth ataliol. Mae'r pwynt mynediad unigol hwn wedi ennill enw da, ond mae ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r gwasanaethau help cynnar ac atal sydd ar gael yn amrywio. Gallai'r arweinwyr wella hyn drwy gydweithio i sicrhau bod gwybodaeth glir a chyson yn cael ei rhannu am yr hyn sydd ar gael a'r llwybrau at gymorth ataliol.

**Asiantaeth Unigol – Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Nid yw ymarferwyr iechyd bob amser yn mynd ar drywydd digwyddiadau o bwys fel achosion o gam-drin domestig neu atgyfeiriadau o dan y Ddyletswydd i Roi Gwybod. Nid yw cofnodion yn dangos unrhyw ddadansoddiad o'r digwyddiadau na chynlluniau i ymateb iddynt. Dylai ymarferwyr weithio gyda phlant a'u teuluoedd i atal sefyllfaoedd rhag codi sy'n debygol o arwain at y plentyn yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso a'i niweidio. Er mwyn diogelu plant yn effeithiol, mae angen i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan, cyfrannu at y broses ddiogelu, a hybu llesiant y plentyn.

### Addysg

Nid oes unrhyw feysydd penodol i'w cofnodi yn yr adran hon.

### Heddlu Dyfed-Powys

Gwelsom rywfaint o amrywio o ran cyflawnrwydd ymchwiliadau'r heddlu. Ar y cyfan, roedd y ffocws ar ymchwiliad troseddol yn glir, ond mewn rhai achosion, gwelsom nad oedd swyddogion a goruchwylwyr wedi cofnodi dull cynllunio diogelwch cynhwysfawr. Mae hyn yn golygu nad oedd effaith y digwyddiad a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig ag ymddygiadau'r rhai o amgylch y plentyn wedi'i hasesu'n llawn ac nad oedd camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hi. Byddai dull cyfannol o gynnal ymchwiliadau yn sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu hystyried a bod ymyriadau priodol yn cael eu hystyried.

### Gwasanaethau Plant

Dywed yr arweinwyr fod y cynnydd mewn adnoddau yn y Tîm Asesu Gofal Plant yn golygu bod mwy o asesiadau yn cael eu cwblhau gan staff heb gymhwyso, sydd wedyn yn asesu'r angen am ymyriadau statudol. Er ei bod yn gadarnhaol bod angen yn cael ei nodi, mae hyn yn golygu bod y galw yn parhau i fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael a bod gwydnwch y gweithlu yn dal i fod yn destun pryder.

Mae ymarferwyr y Tîm Asesu Gofal Plant yn rhoi blaenoriaeth i ymateb i risgiau uniongyrchol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn, ond nid ydynt bob amser yn gallu ateb y galw mewn modd amserol. Dylai'r gwasanaethau plant fonitro a gwerthuso lefel y galw ar y Tîm Asesu Gofal Plant a ph'un a oes digon o adnoddau i sicrhau bod yr ymarfer yn bodloni gofynion statudol yn gyson.

## Y Camau Nesaf

Ar ran y bartneriaeth, dylai'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu arfaethedig yn ymateb i'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai hwn fod yn ymateb amlasiantaethol, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a Heddlu Dyfed-Powys. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu ar gyfer y bartneriaeth a, lle y bo'n briodol, asiantaethau unigol. Dylai pennaeth y gwasanaethau plant anfon y datganiad gweithredu ysgrifenedig i CIWLocalAuthority@gov.wales erbyn 31 Gorffennaf. Bydd y datganiad hwn yn llywio llinellau ymholi yn ystod gweithgarwch cyd-asiantaethol neu asiantaeth unigol gan yr arolygiaethau yn y dyfodol.

## Methodoleg

### Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy edrych ar sampl o gofnodion asiantaethau ac olrhain trefniadau gofal a chymorth plant. Gwnaethom edrych ar sampl o 30 ffeil achos ac olrhain chwech ohonynt.

Mae'r broses o olrhain cofnod plentyn yn cynnwys sgwrsio â'r plentyn lle y bo'n briodol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda staff a chanolbwyntiodd dau grŵp o weithwyr proffesiynol ar y trefniadau gweithio a'r canlyniadau ar gyfer dwy ffeil a gafodd eu holrhain.

Gwnaethom ymweld â sampl bach o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, gan gynnal cyfarfodydd â'r pennaeth, yr arweinydd diogelu dynodedig a grwpiau o ddisgyblion.

Gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o amrywiaeth o ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion, gan gynnwys penaethiaid, personau diogelu dynodedig a llywodraethwyr.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion ar draws asiantaethau gwahanol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth ategol a anfonwyd at yr arolygiaethau at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom anfon arolygon at staff gwasanaethau plant a gofal iechyd, sefydliadau yn y trydydd sector, ysgolion a phlant ac aelodau o'u teulu.

Gwnaethom arsylwi ar drafodaeth strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant fel rhan o'n gweithgarwch arolygu.

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r arolygiaethau ddiolch i'r bobl, y staff a'r partneriaid a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.